Papur y Bwrdd

2 Hydref 2014

Teitl y Papur:	**Defnyddio dulliau rheoli gwyddonol arfer gorau a dull ecosystem i ddiogelu cynaliadwyedd a chynhyrchiant ein stociau o eog a siwin yng Nghymru.**
Cyfeirnod y Papur:	**Papur NRW B B 66.14**
Paratowyd y Papur gan:	Jennifer Dack
Pwrpas y Papur:	**Gweithredu**
Argymhellion:	• Dylai holl fesurau lliniaru a gwella stoc o eog a siwin yng Nghymru a wneir gan CNC a thrydydd partïon ddod i ben yn syth (gan nodi y bydd cylchoedd cynhyrchu cyfredol yn cael eu cwblhau). • Bydd dulliau lliniaru eraill yn cael eu datblygu gyda rhanddeiliaid sy'n sicrhau manteision ehangach a mwy cynaliadwy i'r amgylchedd. • Dylid cau deorfa Mawddach ger Dolgellau a deorfa Maerdy ger Corwen. • Dylai CNC barhau i gynnal gwaith bioamrywiaeth craidd yn Cynrig ac asesu pa mor hyfyw fyddai datblygu'r safle fel canolfan ymchwil dŵr croyw.
Angen Penderfyniad:	Cymeradwyo'r argymhellion.
Effaith: Noder - efallai na fydd pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Mae pysgod angen dŵr o ansawdd da a mynediad hawdd i gynefin o ansawdd da. Maent yn ddangosydd allweddol o berfformiad ecolegol ac ansawdd amgylcheddol. **Effaith ar yr Economi**: Mae gan bysgodfeydd Cymru rôl bwysig o ran darparu swyddi ac incwm ym meysydd pysgota, rheoli pysgodfeydd a thwristiaeth. **Effaith ar y Gymuned**: Gall pysgod fod yn bwysig o ran ennyn diddordeb pobl yn eu hamgylchedd a darparu cyfleoedd addysg, hamdden a manteision iechyd cysylltiedig. **Effaith ar Wybodaeth**: Rydym angen sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar bolisi pysgodfeydd, i lywio penderfyniadau Cyfoeth Naturiol Cymru ar reoli pysgodfeydd ac i lywio trafodaethau gyda phartneriaid a

	chyd-ddarparwyr.

Pwnc

1. Mae'r asesiad blynyddol o stociau eog a deorfeydd yng Nghymru a Lloegr a wnaed gan CEFAS (Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu), ac Asiantaeth yr Amgylchedd gyda chyfraniad gan CNC yn dilyn tymor 2013 yn dangos bod stociau a dalfeydd yn bryder parhaus sylweddol a bod gwarchod yr eog yn dal yn flaenoriaeth.
2. Er mai ffactorau amgylcheddol mewn dŵr croyw yw'r rhesymau allweddol pam nad yw stociau eog yn gwella mewn llawer o afonydd, mae'r lleihad mewn stociau hefyd yn digwydd am nad ydynt yn goroesi cystal yn y môr. Mae'n hanfodol ein bod yn mynd i'r afael â'r ffactorau hyn, o fewn y fframwaith ehangach o bolisïau i reoli'r amgylchedd a'n hadnoddau naturiol. Rydym yn bwriadu cyflwyno mwy o gynlluniau gwella cynefinoedd a rhai mwy amrywiol drwy ddefnyddio mwy o bartneriaethau trydydd sector i sicrhau bod cymaint o eogiaid â phosibl yn goroesi i silio.
3. Mae CNC yn adolygu llawer o agweddau ar ei waith i sicrhau ei fod yn cyflawni er budd yr economi a'r amgylchedd. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad o bolisi stocio eog a gweithrediadau deorfeydd.

Crynodeb

4. Mae'r papur hwn yn cyflwyno'r argymhellion ar gyfer gwaith CNC yn stocio eog, stocio eog gan bartïon eraill a dyfodol deorfeydd CNC yn dilyn yr adolygiad a'r ymgynghoriad.

Cefndir

5. Bu'r Tîm Gweithredol yn trafod adolygiad o'n gweithgarwch stocio eog a gweithrediadau deorfeydd cysylltiedig ym mis Rhagfyr 2013.
6. Roedd yr adolygiad yn ystyried tystiolaeth gyfoes ar effeithiolrwydd a risgiau stocio a daeth i'r casgliad y dylai CNC roi'r gorau i'r gweithrediadau stocio yn sgil y pryderon sy'n gysylltiedig â'r ddau fater.
7. Yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2013 cynghorwyd y Bwrdd y byddai ymgynghoriad ar argymhellion yr adolygiad yn cael ei gynnal yn y Flwyddyn Newydd.
8. Ar 4 Mawrth lansiodd CNC ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos yn gofyn am dystiolaeth ychwanegol naill o blaid, neu yn erbyn y dystiolaeth a oedd yn sail i'r argymhelliad i gau ein deorfeydd eogiaid ac i roi diwedd ar ein gwaith stocio eog.

Crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad (Atodiad 1)

9. Derbyniwyd 112 ymateb i gyd, ac roedd 86 (77%) o'r rhain gan unigolion a 26 (23%) gan sefydliadau yn cynnwys cyrff pysgota cynrychioladol cenedlaethol a rhanbarthol, clybiau pysgota, ymddiriedolaethau afonydd, sefydliadau'r sector

preifat a phrifysgolion. Cyflwynodd rhai grwpiau o sefydliadau ac unigolion ymatebion ar y cyd.

10. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn codi yr un mater o ddiddordeb i grŵp penodol e.e. roedd 25% o'r holl ymatebion a dderbyniwyd yn sôn yn benodol am brosiect Magu Lled-Naturiol Dyffryn Gwy. Derbyniwyd rhai ymatebion ailadroddus hefyd.
11. Roedd ymatebion yr ymgynghoriad yn mynegi safbwyntiau cwbl wahanol a chryf yn aml, ond ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth berthnasol newydd nad oeddem yn ymwybodol ohoni cynt.

Tystiolaeth

12. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad, a chanlyniadau ein chwiliadau a'n hadolygiadau parhaus ni o dystiolaeth a llenyddiaeth, wedi'u hystyried ynghyd â chyngor gan dîm tystiolaeth CNC a Grŵp y Bwrdd Gwybodaeth (Atodiad 2).
13. Mae papurau a ffynonellau a nodwyd, sydd wedi dod yn berthnasol, neu wedi'u cyhoeddi ers yr ymgynghoriad wedi'u rhestru ar dudalen 48 Atodiad 4. Mae'r consensws gwyddonol ar stocio eog a gyflwynwyd mewn papur yn dilyn cynhadledd Glasgow ar stocio eog môr Iwerydd yn berthnasol iawn (Atodiad 3).

Y farn ar ddefnyddio'r gyfraith i stocio

14. Er bod yna bwerau statudol cyffredinol sy'n caniatáu CNC i wneud gwaith stocio, nid oes dyletswydd statudol benodol ar CNC i stocio eog a siwin yng Nghymru.

15. Nid oes dyletswydd statudol ar CNC i gadw deorfeydd penodol.

16. Mewn ychydig o achosion penodol, mae gan CNC rwymedigaethau i ddarparu neu i gyfrannu at fesurau lliniaru difrod hanesyddol i bysgodfeydd. Ar hyn o bryd, mae'r mesurau hyn yn galluogi lliniaru i ddigwydd trwy stocio ond gellir diwygio'r rhain ym mhob achos drwy gytundeb neu gan un ochr yn unig.

Casgliadau

17. Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth a fyddai'n diwygio'r casgliadau a nodwyd yn ein hadolygiad cychwynnol. I'r gwrthwyneb, mae yna gasgliad cynyddol o gyhoeddiadau a thystiolaeth newydd i brofi ein safbwynt bod stocio eog a siwin:

    - Yn aneffeithiol ac felly'n gwastraffu adnoddau. Mae ein tystiolaeth o'r Afon Taf yn dangos bod y cyflenwad o'r pysgod sy'n dychwelyd i'r ddeorfa yn wael ac yn is na'r hyn a fyddai wedi digwydd pe byddai'r rhiant-bysgodyn wedi'i adael yn yr

afon. Ond rydym yn nodi bod tystiolaeth flaenorol ar gyfer rhai rhaglenni stocio yn dangos canlyniadau gwell.

- Yn gallu bod yn niweidiol i boblogaethau, gan fod symud oedolion o'r gwyllt i stoc magu deorfa yn disbyddu'r adnodd o hwyfellod gwyllt gan arwain at ddisbyddu'r adnodd o bysgod ifanc heini, sydd wedi addasu.
- Yn risg i gynnal poblogaethau lleol a'r ffordd y byddant yn addasu i amodau'r presennol a'r dyfodol. Y rheswm am hyn yw bod pysgod aeddfed mewn deorfeydd yn cael eu dewis ar gyfer croesiadau paru na fyddai'n digwydd yn y gwyllt gan arwain at golli addasiadau penodol ac addasrwydd o bosibl. Mae cyfrannu at silio yn y gwyllt gan bysgod aeddfed o ddeorfeydd yn achosi risg tebyg i addasrwydd y boblogaeth.

18. Er nad oes unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol yn atal CNC rhag parhau i stocio eog, mewn ambell achos penodol mae yna rwymedigaethau i ddarparu neu gyfrannu at fesurau lliniaru difrod hanesyddol i bysgodfeydd.

19. Ni cheir tystiolaeth i awgrymu bod angen dull gwahanol o stocio siwin, ac felly rydym yn cynnwys siwin yn ein hargymhellion cyffredinol.

20. Yr egwyddor ar gyfer rheoli salmonidau mudol yng Nghymru fydd diogelu cynaliadwyedd a chynhyrchiant stociau eog a siwin gwyllt drwy ddulliau rheoli gwyddonol arfer gorau a'r dull ecosystem.

Argymhellion

21. Ar 9 Medi 2014 cytunodd Tîm Gweithredol CNC i gymeradwyo'r argymhellion canlynol:

- Dylai pob gwaith lliniaru a gwella stocio eog a siwin yng Nghymru a wneir gan CNC a phartïon eraill ddod i ben.
- Yn achos stocio lliniarol, dylid cytuno ar ddulliau eraill gyda rhanddeiliaid sy'n darparu manteision amgylcheddol ehangach a mwy cynaliadwy.
- Dylid cau deorfa Mawddach ger Dolgellau a deorfa Maerdy ger Corwen.
- Dylai CNC barhau i wneud gwaith bioamrywiaeth yn Cynrig ac asesu pa mor hyfyw yw datblygu'r safle fel canolfan ymchwil dŵr croyw.

Camau Nesaf

22. Dangosodd adborth o'r ymgynghoriad y byddai rhanddeiliaid yn hoffi cael mwy o wybodaeth am y camau sy'n cael eu cymryd i wella pysgodfeydd yn eu dalgylchoedd. Mae CNC a sefydliadau trydydd parti'n cyflawni amrywiaeth eang o gamau gweithredu bob blwyddyn i ddatrys materion sy'n cyfyngu ar berfformiad ein pysgodfeydd. Mae'r rhan fwyaf o'r camau hyn wedi'u cynnwys yng nghynlluniau rheoli basn afon y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Byddwn yn parhau i weithredu'r camau a amlinellwyd yn y cynlluniau hyn.

23. Yn sgil adborth yr ymgynghoriad byddwn yn cydweithio â'n Grwpiau Pysgodfeydd Lleol i weld beth yw'r ffordd orau o gyflwyno'r wybodaeth hon er mwyn cynnwys yr holl gamau gweithredu perthnasol ar bysgodfeydd mewn un cynllun dalgylch pysgodfeydd.

24. Rydym wedi paratoi papur sy'n crynhoi camau gweithredu eraill ar gyfer lliniaru. Bydd CNC yn trafod gyda rhanddeiliaid i ddatblygu'r cynlluniau hyn a fydd yn disgrifio sut y gall CNC gyflawni yn yr hirdymor drwy weithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau amgylchedd sy'n cefnogi pysgodfeydd mewndirol cynaliadwy fel un o amrywiaeth o wasanaethau ecosystem. Byddwn yn trafod gyda rhanddeiliaid er mwyn datblygu hyn.

25. Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr yn yr adran Gyllid i asesu opsiynau ar gyfer ffynonellau ac amserlenni ar gyfer cyllid i weithredu dull ecosystem o gyflawni mesurau lliniaru eraill sy'n sicrhau manteision amgylcheddol ehangach a mwy cynaliadwy.

26. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i baratoi achos busnes i'w gyflwyno i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru er mwyn cael cyllid i ddatblygu cyfleuster ymchwil yn Cynrig.

Risgiau

Her gyfreithiol –

27. Er mwyn lleihau'r risg o unrhyw her gyfreithiol yn erbyn penderfyniadau a wneir gan CNC mae'n rhaid i ni allu dangos ein bod wedi ymddwyn yn rhesymol wrth ddod i unrhyw benderfyniad; ein bod wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i'r holl opsiynau oedd ar gael (adolygiad cyntaf); ein bod wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i'r holl dystiolaeth oedd ar gael yn cynnwys ymatebion i ymgynghoriad (ymgynghoriad, asesu ymatebion ymgynghoriad ac adolygu ymatebion a thystiolaeth newydd); a bod unrhyw benderfyniad terfynol yn dilyn proses benderfynu glir wedi'i chefnogi gan dystiolaeth briodol (papurau Tîm Gweithredol a Bwrdd).

28. Rydym wedi ysgrifennu at rai sefydliadau trydydd parti i'w cynghori am yr amserlenni tebygol ar gyfer penderfyniadau, a hyd nes y bydd unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud rydym yn bwriadu parhau gyda gweithgareddau stocio deorfeydd a gynlluniwyd a pharhau i gyflwyno unrhyw bysgod neu ofa sydd wedi'u cadw mewn deorfeydd ar hyn o bryd fel rhan o raglenni stocio cymeradwyedig. Felly, waeth pa benderfyniad a wneir, dylai CNC a phartïon eraill yr effeithir arnynt allu cwblhau cylch y ddeorfa / stocio ar gyfer unrhyw bysgod a gedwir ar hyn o bryd. Mae'r llythyr hwn hefyd yn cynghori y byddwn yn oedi yr holl waith casglu stoc magu eleni hyd nes y bydd penderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud ac efallai y dylai sefydliadau ystyried hyn.
29. Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n symud pysgod i unrhyw ddŵr derbyn yng Nghymru gael caniatâd ysgrifenedig gan CNC i wneud hynny. Efallai y bydd angen caniatâd i symud pysgod aeddfed ar gyfer stoc magu hefyd. Bydd angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i gael caniatâd o'r fath ar gyfer afonydd sydd wedi'u dynodi yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.

Cyfathrebu –

30. Mae angen i ni esbonio'r penderfyniad, y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gyrraedd ein penderfyniad a'r rhesymau dros weithredu'n syth yn hytrach na chyflwyno fesul cam. Bydd dadansoddiad rhanddeiliaid o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn dangos beth fydd y strategaeth ymgysylltu fwyaf effeithiol.
31. Byddwn yn ceisio trafod yn fuan gyda'n rhanddeiliaid i nodi cyfleoedd ar gyfer cyd-ddarparu mesurau lliniaru.
32. Mae'r holl staff perthnasol wedi bod yn rhan o'r broses ers y dechrau a byddwn yn parhau i gyfathrebu'n rheolaidd gyda staff deorfeydd drwy reolwyr llinell. Gydol yr ymgynghoriad rydym wedi datgan yn glir y bydd staff sy'n cael eu heffeithio gan yr adolygiad hwn yn cael eu hail-leoli gan fod ganddynt y sgiliau allweddol sy'n angenrheidiol ar gyfer gwaith y dyfodol.

<u>Goblygiadau Ariannol</u>

33. Sicrhau ein bod yn defnyddio'n polisïau a'n hadnoddau i sicrhau'r canlyniadau amgylcheddol gorau.
34. Rydym yn bwriadu defnyddio unrhyw arbedion a geir wrth weithredu'r argymhellion hyn i gyflawni gwaith lliniaru arall.

<u>Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb</u>

Amherthnasol.

Mynegai Atodiadau

1. Stocio Eog a Deorfeydd – eich safbwyntiau – Crynodeb o ymatebion i 'Ymgynghoriad ynglŷn â gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru yn stocio eog, stocio eog gan bartïon eraill, a dyfodol deorfeydd Cyfoeth Naturiol Cymru' a gynhaliwyd 4 Mawrth – 27 Mai 2014
2. Adolygiad o bolisi stocio eog a deorfeydd Cyfoeth Naturiol Cymru – Dadansoddiad o ymatebion ymgynghoriad a thystiolaeth ychwanegol.
3. Young,K,A., Colin Adams, Andy Ferguson, Carlos Garcia de Leaniz, Stephen Gephard, Neil Metcalfe, Phil McGinnity, Ted Potter, Tom Reed, Ian Russell, Jamie Stevens a Eric Verspoor (2014). A scientific Consensus on salmon stocking. Papur a gyflwynwyd yn dilyn cynhadledd stocio eog môr Iwerydd 27-28 Tachwedd, Glasgow, y DU. The Atlantic SalmonTrust/IBIS.